Centre of expertise on child sexual abuse

# Negeseuon allweddol o ymchwil ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant

Emilie Smeaton

**Ail argraffiad, Ionawr 2026**

www.csacentre.org.uk

# Negeseuon allweddol

Mae'r heriau sy'n ymwneud â diffiniadau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn cynnwys anawsterau wrth amlinellu'r ffiniau rhwng hyn a mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol. Mae'r heriau hyn yn cyfrannu at ddryswch ac anghysondeb wrth ddefnyddio'r diffiniadau hyn, gan lesteirio'r gwaith o ganfod plant sy'n destun camfanteisio rhywiol a chyflwyno heriau ar gyfer ymatebion ymarfer.

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei gyflawni mewn sawl ffordd, gan ddynion yn bennaf. Gall camfanteisio ar-lein ac wyneb yn wyneb ddigwydd ar wahân a gall y ddau beth orgyffwrdd.

Mae rhwydweithiau ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant yn aml ymhell o fod yn gyfundrefnol, ac yn gyffredinol nid ydynt yn dod at ei gilydd gyda bwriad penodol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Nid yw'r cysyniad o gangiau sy'n meithrin perthynas amhriodol wedi'i ddiffinio'n glir, nid yw'n cyfateb i unrhyw gategorïau cyfreithiol sefydledig, nid yw'n cael ei gofnodi'n glir mewn unrhyw setiau data swyddogol, ac yn aml, mae ei ddefnyddio'n adlewyrchu stereoteip sy'n cael ei ddiffinio ar sail hil sy'n targedu dynion Asiaidd a Mwslimaidd yn anghymesur.

Mae ansawdd y data ar ethnigrwydd troseddwyr yn wael; mae'r dystiolaeth brin yn awgrymu nad oes unrhyw un grŵp ethnig yn rhagdueddol o droseddu.

Mae grymoedd strwythurol, deinameg sefyllfaoedd a ffactorau unigol yn effeithio ar ba mor agored yw plant i gamfanteisio rhywiol. Mae ymchwil wedi nodi rhai patrymau penodol o gamfanteisio rhywiol ar gyfer plant mewn cyd-destunau diwylliannol amrywiol, ochr yn ochr â rhwystrau rhag datgelu a mynediad at gymorth. Canfuwyd bod cael eu magu mewn cymunedau sydd dan anfantais economaidd a phrofi hiliaeth yn gwneud plant Du yn agored i niwed. Mae plant anabl yn agored i niwed penodol ac mae angen ystyriaethau gwahanol wrth ymateb iddynt, gan gynnwys diwallu anghenion amhariadau unigol. Caiff plant sy'n teimlo'n ynysig ac fel pe na baent yn cael eu derbyn oherwydd eu rhywioldeb neu eu hunaniaeth rhywedd, eu harwain i ofyn am gymorth drwy grwpiau a lleoliadau i oedolion, gan eu gwneud yn fwy agored i gamfanteisio rhywiol. Mae plant sy'n derbyn gofal hefyd yn agored iawn i niwed, ond gall lleoliadau wedi'u dewis yn ofalus leihau risgiau.

Er bod camfanteisio rhywiol yn digwydd i fechgyn yn ogystal â merched, gall bechgyn fod yn ddioddefwyr/goroeswyr 'cudd' oherwydd bod ymatebion strategol ac ymarferol yn canolbwyntio'n bennaf ar ferched.

Gall camfanteisio'n rhywiol ar blant a chamfanteisio troseddol ddigwydd gyda'i gilydd: gall cam-drin rhywiol fod yn ffordd o gychwyn gweithgareddau troseddol a rheoli pobl.

Mae rhai plant yn llai tebygol o gael cefnogaeth ac yn cael eu trin fel pe baent yn gyfrifol am y niwed maen nhw'n ei ddioddef. Gall plant fod yn agored i niwed a bod â galluogedd (agency), sy'n gofyn am ddull cytbwys o gysoni risg a mesurau amddiffyn. Mae gweithwyr proffesiynol yn elwa o ddefnyddio dull croestoriadol a dangos chwilfrydedd a barn i archwilio anghenion ac amgylchiadau plant.

Er mwyn ymateb i achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, mae'r ymarferwyr yn cydnabod nad oes angen i'r plentyn ddatgelu beth sy'n digwydd iddo; gall yr ymateb fod yn seiliedig ar gydnabod risgiau, arwyddion a dangosyddion a llunio asesiad. Dylai asesiadau alluogi ymarferwyr i wahaniaethu rhwng risg a niwed, ac i ganfod yn gywir y plant sy'n wynebu camfanteisio rhywiol a'r rheini sydd mewn perygl o wynebu hynny.

Mae dulliau amlasiantaethol yn galluogi sefydliadau i gyfrannu eu rolau penodol ar yr un pryd â datblygu camau gweithredu ar y cyd. Mae diogelu cyd-destunol yn cynnig fframwaith ar gyfer ymateb i niwed y mae plant yn ei wynebu y tu allan i'r cartref. Gall ymarfer sy'n ystyriol o drawma gefnogi'r gwaith o ddiwallu anghenion plant ac osgoi beio a chosbi'r dioddefwyr. Mae gwrando ar y plentyn a'i deulu yn hanfodol, ac mae'n fuddiol i weithwyr proffesiynol gydweithio â rhieni er mwyn gwneud plant yn fwy diogel.

Rhaid i'r gwaith o ddylunio a darparu mesurau atal osgoi ymgorffori anghydraddoldebau ac agweddau problemus presennol tuag at blant. Mae mesurau tarfu yn allweddol i atal.

O ystyried y cysylltiadau rhwng ymddygiad rhywiol niweidiol a bod yn destun camfanteisio rhywiol, mae ymatebion i blant sydd wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn elwa o gydnabod ac ymateb i brofiadau trawmatig, ac o ystyried y rhwydweithiau a'r mannau cymdeithasol ehangach sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer yr ymddygiad hwn.

Nod ein papurau 'Negeseuon allweddol o ymchwil' yw darparu gwybodaeth gryno a pherthnasol i ymarferwyr rheng flaen a chomisiynwyr. Maen nhw'n dod â'r ymchwil diweddaraf at ei gilydd i greu trosolwg hygyrch, gan gefnogi darpariaeth hyderus o'r ymatebion gorau posibl i gam-drin plant yn rhywiol.

**Mae'r papur hwn yn cynnwys ymchwil a gyhoeddwyd hyd at ganol Tachwedd 2025.**

## Diffinio camfanteisio'n rhywiol ar blant

Er bod modd dadlau bod pob achos o gam-drin plant yn rhywiol yn gamfanteisiol, mae'r term 'camfanteisio'n rhywiol ar blant' wedi datblygu ystyr benodol sydd wedi newid dros amser (Casey, 2025). Yn ôl diffiniad presennol Llywodraeth y DU, sy'n berthnasol yn Lloegr:

> *Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fath o gam-drin plant yn rhywiol. Mae'n digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn cymryd mantais ar anghydbwysedd mewn pŵer i orfodi, dylanwadu neu dwyllo plentyn neu berson ifanc dan 18 oed i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol (a) yn gyfnewid am rywbeth y mae'r dioddefwr ei angen neu eisiau a/neu (b) am fantais ariannol neu statws uwch y cyflawnwr neu'r hwylusydd. Mae'n bosibl bod y dioddefwr wedi bod yn destun camfanteisio rhywiol hyd yn oed os yw'r gweithgarwch rhywiol yn ymddangos yn gydsyniol. Nid yw camfanteisio'n rhywiol ar blant bob amser yn golygu cyswllt corfforol; gall ddigwydd hefyd drwy ddefnyddio technoleg. (Yr Adran Addysg, 2023:154-155)*

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn ffyrdd tebyg, gan gynnwys cydnabod camfanteisio'n rhywiol ar blant fel math o gam-drin plant yn rhywiol sy'n cynnwys rhyw fath o gyfnewid:

> *Y cam-drin] gallu cynnwys rhyw neu unrhyw fath o weithgaredd rhywiol â phlentyn, creu delweddau anweddus, a/neu unrhyw ddeunyddiau anweddus eraill sy'n ymwneud â phlant. […] Gall y cyfnewid gynnwys rhoi rhywbeth neu dynnu rhywbeth yn ôl […] Efallai na fydd plant yn cydnabod natur gamfanteisiol y berthynas neu'r cyfnewid. Efallai y bydd plant yn teimlo eu bod wedi rhoi eu caniatâd. […] Cyfnewid yw'r hyn sy'n gwneud camfanteisio'n rhywiol ar blant yn wahanol i ffurfiau eraill o gam-drin plant yn rhywiol. Yr hyn sy'n cael ei gyfnewid yw:*
>
> - *Pethau a phrofiadau materol – arian, nwyddau, bwyd, alcohol, cyffuriau, llety, partïon, tripiau.*
> - *Pethau'n ymwneud â theimladau – diwallu angen emosiynol neu angen sy'n ymwneud â hunan-barch, teimlo bod ar rywun eu heisiau, teimlo eu bod yn perthyn, teimlo bod rhywun yn eu caru, teimlo eu bod yn rheoli a/neu deimlo'n bwysig.*
> - *Pethau'n ymwneud â'r angen i fod yn ddiogel – yr angen i fod yn rhydd rhag bygythiadau a thrais corfforol neu fygythiadau i rywun sy'n annwyl i'r plentyn. (Llywodraeth Cymru, 2021:8–9)*

Daeth yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol i'r casgliad mai nodwedd unigryw camfanteisio'n rhywiol ar blant yw bod y plentyn wedi'i "reoli, ei orfodi, ei drin neu ei dwyllo i weithgaredd rhywiol" (Jay et al, 2022:145), ac efallai na fydd y pwyslais ar gyfnewid mewn diffiniadau yn briodol. Mae'r diffiniadau presennol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant hefyd wedi cael eu beirniadu a'u cydnabod fel rhai sy'n peri problemau i'w defnyddio'n ymarferol (Casey, 2025). Mae anawsterau o ran amlinellu'r ffiniau rhwng camfanteisio'n rhywiol ar blant a mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol, gan arwain at anghysondebau yn y modd y caiff diffiniadau eu defnyddio (Karsna a Kelly, 2021). Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr yn cofnodi unrhyw gam-drin plant yn rhywiol y tu allan i'r teulu fel cam-fanteisio (Casey, 2025; Tregidga a Lovett, 2021) neu'n ystyried bod cam-drin rhywiol yn digwydd i blant o dan ddeg oed a chamfanteisio rhywiol yn digwydd i blant hŷn (Christie a Karsna, 2019). Mae'r heriau o ran diffinio a chofnodi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi llesteirio'r canlynol:

- canfod plant sy'n profi, neu sydd mewn perygl o brofi, camfanteisio'n rhywiol ar blant (Casey, 2025; Jay et al, 2022; Weston a Mythen, 2020)
- cofnodi'n gywir achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (Moodie, 2021)
- ymatebion ymarfer (McGinty et al, 2024; Jay et al, 2022)
- canfod pobl sy'n cam-drin plant yn rhywiol (Weston a Mythen, 2020).

Nid yw camfanteisio'n rhywiol ar blant yn gysylltiedig ag un drosedd benodol (Casey, 2025) ond mae'n dod o fewn deddfwriaeth troseddau rhywiol ehangach, gydag erlyniadau'n defnyddio sawl adran o ddeddfwriaeth graidd fel Deddf Troseddau Rhywiol 2003.

Er gwaethaf yr heriau, mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn parhau i fod yn fath cydnabyddedig o gam-drin plant yn rhywiol sy'n gofyn am ymatebion strategol ac ymarferol gan weithwyr proffesiynol.

## Pwy sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant, a sut?

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn ddynion; prin yw'r dystiolaeth bod menywod yn camfanteisio'n rhywiol ar blant neu'n hwyluso hynny (Dixon, 2024; Smeaton, 2013). Er nad yw nifer y bobl ifanc dan 18 oed sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant eraill yn hysbys, gallant fod yn gysylltiedig fel hwyluswyr, camdrinwyr neu wylwyr (Beckett et al, 2013; Firmin, 2011); gall deinameg a chyd-destunau camfanteisiol beri i blant niweidio pobl eraill (Beckett et al, 2013; Firmin, 2013).

Gall camfanteisio'n rhywiol ar blant fod ar sawl ffurf, a gall plant sy'n profi camfanteisio o'r fath gael eu hecsbloetio gan bobl o'r un oed â nhw neu gan bobl sy'n hŷn o lawer, a gan unigolion neu grwpiau/rhwydweithiau (Berelowitz et al, 2012; Webb a Holmes, 2015). Gall camfanteisio rhywiol wyneb yn wyneb ac ar-lein ddigwydd ar wahân neu gall y ddau beth orgyffwrdd (Fox a Kalkan, 2016). Mae deinameg, nodweddion a naratifau ar-lein yn rhyngweithio i newid a chynyddu'r niwed yn sgil cam-drin cyswllt (Brown a Tregidga, 2023; Hanson, 2019). Er enghraifft, gall meithrin perthynas amhriodol ddigwydd ar-lein a gall plant gael eu bygwth/blacmelio y bydd delweddau rhywiol neu noeth ohonynt yn cael eu rhannu. Mae datblygiadau technolegol wedi arwain at ddefnyddio mwy o ddeallusrwydd artiffisial (AI) i gynhyrchu deunydd cam-drin plant yn rhywiol (Internet Watch Foundation, 2024), gan beri bygythiad a niwed i blant (Comisiynydd Plant Loegr, 2025); mae adnoddau AI hefyd yn cael eu defnyddio i greu proffiliau a phersonâu plant ffug, gyda'r bwriad o feithrin perthynas amhriodol â phlant ar-lein er mwyn camfanteisio arnynt yn rhywiol (NSPCC, 2025).

Ni ellir cymryd bod plant sy'n ymddangos fel pe baent yn cydweithredu yn gyfystyr â chydsyniad, gan ei bod yn debygol bod rhywun yn eu gorfodi, yn eu rheoli ac yn ceisio meithrin perthynas amhriodol â nhw (Arthur a Down, 2019).

## Camfanteisio'n rhywiol ar blant ar sail rhwydwaith a/neu grŵp

Er mai prin yw'r dystiolaeth sy'n gwahaniaethu rhwng rhwydweithiau a grwpiau mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, defnyddir y ddau derm, ac mae 'rhwydweithiau' yn tueddu i gael ei ddefnyddio i ddisgrifio elfennau mwy cyfundrefnol, a 'grwpiau' i gynnwys cysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol gan gynnwys grwpiau ffrindiau (gweler, er enghraifft, Berelowitz et al, 2013). Gall aelodau o'r teulu hefyd fod yn gysylltiedig ag achosion cyfundrefnol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (Scott, 2023).

Fe wnaeth yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ddiffinio rhwydwaith cyfundrefnol fel dau unigolyn neu fwy sydd â chysylltiad â'i gilydd ac sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant; defnyddiwyd y term 'cyfundrefnol' dim ond i ddynodi'r hwyluso a'r cydweithredu ymysg unigolion mewn rhwydweithiau, waeth i ba raddau yr oeddent yn 'drefnus' (Jay et al, 2022). Mae'r rhwydweithiau eu hunain yn aml ymhell o fod yn gyfundrefnol, heb arweinydd na hierarchaeth (Senker et al, 2020) a gyda chysylltiadau llac (Dixon, 2024).

Canfu un astudiaeth nad oedd rhwydweithiau'n cael eu hysgogi yn gyffredinol gan ddiddordeb rhywiol penodol mewn plant, ac nad oeddent yn dod at ei gilydd gyda'r bwriad penodol o gamfanteisio'n rhywiol arnynt: yn wahanol i unigolion sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain i gamfanteisio'n rhywiol ar blant, roedd yn ymddangos eu bod yn ceisio cael cyswllt â phlant agored i niwed yr oedd yn hawdd cael mynediad atynt a chamfanteisio arnynt mewn nifer o ffyrdd (Dixon, 2024). Fel arfer, mae gan aelodau o rwydweithiau, a'r plant y maent yn manteisio arnynt, berthnasoedd cymdeithasol sy'n bodoli'n barod yn seiliedig ar deulu, cyfeillgarwch, cymdogaethau, ysgolion a mannau gwaith ac addoli cyffredin (Cockbain, 2018; Dixon, 2024; Taylor, 2019). Gall unrhyw elfen gyfundrefnol o grwpiau neu rwydweithiau ymwneud â throseddau eraill fel cyflenwi cyffuriau anghyfreithlon (Dixon, 2024; Casey, 2025); mae cyffuriau'n darparu cyfleoedd ar gyfer meithrin perthynas amhriodol, gan gynnwys drwy ddenu plant i leoliadau penodol, creu dyled a dibyniaeth, a lleihau swildod ac ymwrthedd i gam-drin (Dixon, 2024).

Canfu dadansoddiad o ddata sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol ar sail grŵp fel y'i cofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn 2023 (Child Sexual Exploitation Taskforce, 2024) fod un o bob chwech (17%, n=717) o'r troseddau hyn yn cael eu hystyried yn gamfanteisio'n rhywiol ar blant; roedd mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol ar sail grŵp yn cynnwys cam-drin teuluol, sefydliadol a defodol. Dim ond ar gyfer traean yr unigolion dan amheuaeth ar draws pob math o gam-drin plant yn rhywiol yr oedd gwybodaeth am ethnigrwydd ar gael, ac roedd hyn fwy neu lai yn adlewyrchu'r boblogaeth deg oed a hŷn yng Nghymru a Lloegr (Kewley a Karsna, 2025). Mae adolygiadau o'r dystiolaeth sydd ar gael wedi cydnabod bod ansawdd data'r heddlu ar ethnigrwydd troseddwyr yn wael (Casey, 2025; Swyddfa Gartref, 2020), gan nodi "ei bod yn debygol nad oes gan un gymuned na diwylliant ragduedd unigryw i droseddu" (Swyddfa Gartref, 2020:25). Cydnabyddir hefyd fod bwlch yn ansawdd y data ethnigrwydd a gesglir gan wasanaethau yn y sector statudol a'r sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant a gyda phobl sy'n profi camfanteisio o'r fath (Christie a Karsna, 2019).

Mae'r cysyniad o 'gangiau meithrin perthynas amhriodol' yn gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar sail rhwydwaith a grŵp. Datblygodd y term hwn o adroddiad yn 2011 yn The Times a wnaeth honni bod dynion Pacistanaidd a Mwslimaidd yn gweithredu mewn gangiau i feithrin perthynas amhriodol â phlant sy'n ferched ac i gamfanteisio arnynt yn rhywiol, a "sefydlwyd y term yn gadarn mewn trafodaethau poblogaidd a gwleidyddol yn y DU" (Cockbain a Tufail, 2020:4). Nid yw'r term yn cyfateb i unrhyw gategorïau cyfreithiol sefydledig, nid yw'n cael ei gofnodi'n glir mewn unrhyw setiau data swyddogol, ac mae'n adlewyrchu stereoteip sy'n cael ei ddiffinio ar sail hil sy'n targedu dynion Asiaidd a Mwslimaidd yn anghymesur (Cockbain a Tufail, 2020).

# Ffactorau sy'n effeithio ar ba mor agored yw plant i brofi camfanteisio rhywiol a'r ymateb iddynt

Gall unrhyw blentyn fod mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol, ond gall profiadau a nodweddion penodol olygu bod rhai plant mewn mwy o berygl. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: cam-drin blaenorol yn y teulu, gan gynnwys cam-drin rhywiol; amddifadedd economaidd; digartrefedd; camddefnyddio sylweddau; anabledd; bod mewn gofal; 'rhedeg i ffwrdd'/mynd ar goll; a bod â 'chysylltiad â gang' (Beckett et al, 2013; Brown et al, 2016; Franklin et al, 2015; Klatt et al, 2014; Jago et al, 2011; Smeaton, 2013). Canfuwyd bod plant sy'n profi camfanteisio rhywiol yn fwy tebygol o fod wedi profi rhyw fath o gam-drin rhywiol teuluol neu gam-drin/trais rhywiol y tu allan i'r teulu (Hallett et al, 2019). Mae'n ymddangos hefyd bod rhai o'r dangosyddion uchod yn bresennol mewn plant sy'n profi camfanteisio rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein (Whittle et al, 2013).

Nid yw'r dangosyddion hyn o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn dystiolaeth ei fod wedi digwydd, na bod risg o hynny, ond maent yn tynnu sylw at y ffaith bod angen chwilfrydedd a chrebwyll proffesiynol i archwilio anghenion ac amgylchiadau plant sydd heb eu diwallu. Mae'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh) wedi datblygu **Templed Arwyddion a Dangosyddion** i helpu gweithwyr proffesiynol i arsylwi, cofnodi a chyfleu pryderon am gam-drin plant yn rhywiol mewn modd systematig.

Mae'r egwyddorion arweiniol i gefnogi'r defnydd o adnoddau i asesu camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cynnwys bod yn glir ynghylch pwrpas adnodd; defnyddio barn broffesiynol wrth ddefnyddio adnoddau a'r gweithdrefnau/prosesau y maent wedi'u gwreiddio ynddynt; gwahaniaethu risg yn glir oddi wrth niwed; ac osgoi sgorio (Brown et al, 2017).

Mae grymoedd strwythurol a deinameg sefyllfaoedd, yn ogystal â ffactorau unigol, yn dylanwadu'n amlwg ar ba mor agored yw plentyn i gamfanteisio rhywiol; mae anghydraddoldebau strwythurol yn llywio profiadau rhai plant o gamfanteisio rhywiol ac maent wedi'u gwreiddio mewn ymatebion systemau gan gynnwys amddiffyn plant (Wroe et al, 2023).

Mae rhai plant yn llai tebygol o gael cefnogaeth ac yn cael eu trin fel pe baent yn gyfrifol am y niwed maen nhw'n ei ddioddef (Casey, 2025; Jay et al, 2022). Mae trin plant fel oedolion yn digwydd pan fydd syniadau o ddiniweidrwydd a bregusrwydd yn seiliedig ar ragfarn, yn enwedig rhagfarn hiliol, ac mae plentyn yn cael ei ystyried yn fwy aeddfed (Davis, 2022), felly mae disgwyliad amhriodol iddo ymddwyn a meddwl fel oedolyn.

Gall agweddau ar gefndir cymdeithasol-economaidd plentyn, nodweddion personol a/neu profiadau gael eu hwynebu â ymatebion gwahaniaethol, a chanfyddir bod plant sy'n destun camfanteisio rhywiol "yn gyfrifol, yn rhan ohono, neu'n fwy gwydn ac yn gallu gwrthsefyll camdriniaeth" (Casey, 2025:138). Mae deall effeithiau anghydraddoldebau strwythurol ar brofiadau plant yn allweddol, ochr yn ochr â sicrhau nad yw ymatebion proffesiynol yn chwarae unrhyw ran mewn atgyfnerthu anghydraddoldebau (Manister et al, 2023).

Er mai merched sy'n profi camfanteisio rhywiol ran amlaf, mae bechgyn yn ei brofi hefyd, gan gynnwys drwy rwydweithiau cyfundrefnol (Jay et al, 2022). Gellir disgrifio bechgyn fel dioddefwyr/goroeswyr 'cudd' oherwydd bod ymatebion strategol ac ymarferol yn canolbwyntio ar ferched (Coy, 2019). Mae diffyg dealltwriaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar fechgyn wedi chwarae rhan mewn agweddau a thybiaethau ar sail rhywedd ymysg gweithwyr proffesiynol, gan arwain at fethiant i gydnabod pan fydd bechgyn yn cael eu cam-drin (Beech et al, 2019; Smeaton, 2013). Mae'r rhwystrau sy'n atal gweithwyr proffesiynol a'r bechgyn eu hunain rhag cydnabod bod rhywun yn camfanteisio arnynt yn rhywiol yn cynnwys syniadau o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn wrywaidd – hynny yw, nad yw 'gwrywdod' nac erledigaeth yn mynd law yn llaw – yn ogystal â'r dehongliad o wrywdod heterorywiol a homoffobia (Lovett et al, 2018). Mae'n bwysig gweld ac ymateb i unrhyw blentyn, beth bynnag fo'i ryw neu unrhyw nodwedd arall, yn bennaf fel plentyn (Smeaton, 2013).

Gall **plant sy'n derbyn gofal** fod yn agored iawn i gamfanteisio rhywiol oherwydd bod cysylltiad ag anghenion emosiynol ac economaidd sydd heb eu diwallu (Plowright, 2022). Mae plant yn eu harddegau sy'n derbyn gofal chwe gwaith yn fwy tebygol na phlant eraill o brofi camfanteisio rhywiol (Comisiynydd Plant Loegr, 2019); mae'r rhai sydd wedi cael eu lleoli sawl gwaith neu sydd â pherthynas ansefydlog â'u gweithwyr cymdeithasol mewn mwy o berygl (Ofsted, 2024). Gall lleoliadau a ddewisir yn ofalus sy'n diwallu anghenion unigol plant leihau'r risg o gamfanteisio rhywiol (Jay et al, 2022). Er bod tystiolaeth gymysg am effeithiolrwydd lleoliadau y tu allan i'r ardal ar gyfer plant sy'n destun camfanteisio rhywiol, gall y lleoliadau hyn weithio'n dda os ymgynghorir â'r plentyn am y penderfyniad ac os caiff ei gefnogi, ac os yw'r lleoliad yn mynd i'r afael â phroblemau o safbwynt y plentyn; mae angen tarfu ar y rhai sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant hefyd (Jay et al, 2022). Mae tystiolaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynllunio ar gyfer pontio, gan weithio drwy gymhlethdodau sy'n ymwneud â thrin cyflyrau iechyd meddwl, a sicrhau bod staff gofal yn cael eu cefnogi i fod yn wybodus am ymatebion sy'n ystyriol o drawma (Scott, 2016).

Mae **plant anabl** yn benodol agored i gamfanteisio rhywiol. Canfu adolygiad o 205 o ffeiliau achos gwasanaethau plant Cymru fod gan 9.3% o blant sy'n profi camfanteisio rhywiol anabledd dysgu/cyflwr datblygiadol (Hallett et al, 2019). Gall bregusrwydd ddeillio o'r modd y mae'r gymdeithas yn trin plant anabl a methiant i roi cymorth iddynt ddatblygu perthnasoedd iach; efallai y bydd ganddynt amhariad sy'n effeithio ar eu gallu i adnabod risg a chamfanteisio, ymddygiad byrbwyll, anghenion sy'n gysylltiedig â chyfathrebu a deall rhyngweithio cymdeithasol, a gallu cyfyngedig i gydsynio i weithgarwch rhywiol (Smeaton, 2019). Ceir ystyriaethau penodol i gefnogi plant anabl sy'n profi, neu sydd mewn perygl o brofi, camfanteisio rhywiol mewn canllaw ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth (Smeaton et al, 2014).

Mae canfyddiadau'r gwaith ymchwil prin sy'n mynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n **lesbiaid, yn hoyw neu'n ddeurywiol,** a/neu sy'n cwestiynu eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu **hunaniaeth** rhywedd, wedi datgelu ffactorau sy'n ymwneud ag archwilio rhywioldeb ynghyd â'r ffaith bod rhai pobl – gan gynnwys rhai gweithwyr proffesiynol – yn derbyn perthnasoedd rhywiol rhwng dynion sy'n oedolion a phlant gwrywaidd (Smeaton, 2013). Caiff plant sy'n teimlo'n ynysig ac fel na pe baent yn cael eu derbyn oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaeth rhywedd eu harwain hefyd i ofyn am gymorth drwy grwpiau a lleoliadau oedolion (Fox, 2016).

O ran plant o **gefndiroedd ethnig leiafrifol**, mae menywod ifanc De Asiaidd wedi cael eu cydnabod fel rhai sydd 'ar goll mewn trafodaethau' ac sy'n wynebu arferion diwylliannol sy'n eu rhwystro rhag datgelu a gofyn am gymorth (Sharp, 2013). Mae ymchwil sy'n ymwneud â phlant Asiaidd, plant o Ddwyrain Ewrop, Roma a Theithwyr wedi nodi gwahanol batrymau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn cyd-destunau diwylliannol amrywiol; nodwyd rhwystrau rhag datgelu, nodi risg, mynediad at wasanaethau a'r diffyg adnoddau i ymgymryd â gwaith gyda grwpiau amrywiol, ochr yn ochr â'r angen i weithwyr proffesiynol ddatblygu dealltwriaeth ehangach o gymunedau plant (Smeaton, 2013). Mae gwaith ymchwil ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant ar sail rhwydwaith wedi canfod bod plant o gefndiroedd amrywiol yn profi camfanteisio (Cockbain, 2018) ond bod anghenion penodol rhai o'r plant hyn wedi cael eu hanwybyddu (Cockbain a Tufail, 2020; Patel, 2018).

Mae cael eu magu mewn cymunedau sydd dan anfantais economaidd a phrofi hiliaeth yn gallu gwneud plant Du yn arbennig o agored i gamfanteisio rhywiol (Firmin, 2018). Mae rhagfarn ddiarwybod ar sail hil yn cyfrannu at sut mae plant Du yn cael eu trin mewn systemau addysg, iechyd, cyfiawnder ac amddiffyn plant: maen nhw'n cael eu hystyried yn llai diniwed – ac felly fel pe bai angen llai o amddiffyn arnynt – na phlant Gwyn ac yn cael eu trin yn hŷn na'u hoed a bod mwy o fai arnynt am eu gweithredoedd (Bernard, 2019). Gall gangiau gamfanteisio'n rhywiol ar ferched Du, a gall merched Du wynebu sawl math o gam-drin yn y cyd-destun hwnnw, gan gynnwys cam-drin â chymhelliant hiliol (Bernard, 2019). Gall naratifau hiliol a stereoteipiau negyddol am ddynion Du a'u cysylltiad â throseddu a thrais, atal dealltwriaeth a chanfod bechgyn Du fel dioddefwyr trais rhywiol (Curry ac Utley, 2018). Mae defnyddio dull **croestoriadol** yn helpu i ddeall yr heriau cymhleth a chynnil sy'n wynebu plant Du sydd mewn perygl o brofi camfanteisio rhywiol (Bernard, 2019) ac ymarfer perthynol, ochr yn ochr â chydnabod y ffactorau cyd-destunol cymhleth sy'n fframio bywydau plant Du (Firmin, 2018). Fel fframwaith dadansoddol sy'n archwilio sut mae agweddau ar hunaniaethau unigolyn yn cyfuno ac yn croestorri i greu gwahaniaethu a braint, mae croestoriadedd yn gyffredinol yn cefnogi deall profiadau plant o gamfanteisio rhywiol a sicrhau ymatebion priodol.

## Osgoi iaith sy'n beio'r dioddefwr a gweithio gyda risg a galluogedd *(agency)*

Gall rhwystrau rhag deall camfanteisio'n rhywiol ar blant a diwallu anghenion plant gael eu hadlewyrchu yn iaith y gweithwyr proffesiynol (Coy, 2019; Adams Elias et al, 2023; Lovett et al, 2018). Mae cyfeirio at 'ffordd o fyw' ac 'ymddygiad peryglus' plentyn, er enghraifft, yn cyfrannu at normaleiddio cyd-destunau camfanteisiol (McGinty et al, 2024). Mae angen ystyried iaith yn ofalus er mwyn lleihau'r achosion o feio dioddefwyr a sicrhau'r ymgysylltiad mwyaf â phlant (Alderson ac Ireland, 2020). Dylai asesiadau alluogi gweithwyr proffesiynol i wahaniaethu rhwng risg a niwed, ac i adnabod yn gywir y plant sydd mewn perygl o brofi camfanteisio rhywiol a'r rheini sydd eisoes yn ei brofi, neu sydd wedi ei brofi (Hallett et al, 2019; Jay et al, 2022).

Mae 'ymddygiadau peryglus' weithiau'n cael eu hystyried yn broblem ynddynt eu hunain, nid fel ffactor risg ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant; mae hyn yn llesteirio'r broses o adnabod ac ymateb yn briodol i gam-drin (Mason-Jones a Loggie, 2019). Gellir atgyfnerthu dicter neu rwystredigaeth plant pan fydd gweithwyr proffesiynol yn canolbwyntio ar risgiau ac yn gweld y plentyn fel y broblem, yn enwedig pan fydd ymatebion yn canolbwyntio ar newid ymddygiad plant ond nid eu hamgylchiadau (Hallett et al, 2019). Mae tystiolaeth yn cefnogi dull mwy deinamig o reoli risg a mynd i'r afael â llesiant mewn ymatebion i gamfanteisio'n rhywiol ar blant (Hallett et al, 2019). Mae hyn yn cynnwys cydnabod perthnasoedd rhwng cyfoedion fel ffynonellau cymorth a niwed (Brodie et al, 2020), ac fel ffactor amddiffynnol yn erbyn camfanteisio'n rhywiol ar blant (Hallett et al, 2019). Mae'n bwysig cael dealltwriaeth gytbwys o berthnasoedd cyfoedion ar gyfer asesiadau, cynllunio ac ymyriadau gyda phlant a'u grwpiau cyfoedion (Adams Elias et al, 2023).

Mae deinameg gymhleth ar waith wrth ystyried gallu plant i wneud dewisiadau gwybodus a chymryd camau yng nghyd-destun camfanteisio'n rhywiol ar blant: gall awydd ac ystyr mewn perthnasoedd rhywiol, a dealltwriaeth o gam-drin a chamfanteisio, gydfodoli (Brown, 2019). Nid yw cydnabod galluogedd plant yn golygu symud cyfrifoldeb am gam-drin i'r plentyn. Mae angen i ymarferwyr fabwysiadu sefyllfa integredig o 'y naill/a'r llall', yn hytrach na 'naill ai/neu' (Lefevre et al, 2019), sy'n dangos bod plant yn gwneud eu dewisiadau eu hunain a'u bod yn gallu cymryd risgiau ar yr un pryd â bod angen cael eu hamddiffyn (Hanson, 2019; Lefevre et al, 2019). Er mwyn rheoli'r cydbwysedd hwn, mae angen cydnabod bod plant yn gallu bod yn agored i niwed ar yr un pryd â bod â galluogedd, maen nhw'n gallu bod yn gymwys a'i chael hi'n anodd, ac maen nhw'n gallu bod yn annibynnol a phrofi camfanteisio (Lefevre et al, 2019). Gall galluogi ymarferwyr i archwilio hyn mewn mannau diogel a myfyriol helpu i fynd i'r afael ag unrhyw densiynau a phryderon wrth weithio i gysoni risg a mesurau amddiffyn (Lefevre et al, 2019).

## Camfanteisio'n rhywiol ar blant, troseddu a chamfanteisio'n droseddol ar blant

Mae plant sy'n profi camfanteisio rhywiol weithiau'n cael eu nodi ar gam fel troseddwyr (Jay et al, 2022), ond gall rhai ddod yn gysylltiedig ag ymddygiad troseddol o ganlyniad i'r ffaith bod rhywun yn camfanteisio arnynt (Casey, 2025). Gall plant gael eu gorfodi i droseddu ochr yn ochr â'r rhai sy'n eu cam-drin, gan gyfiawnhau ystyried ymhellach y cysylltiadau rhwng troseddu gan bobl ifanc a chamfanteisio'n rhywiol ar blant (Arthur a Down, 2019; Casey, 2025). Gall pobl sy'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar sail grŵp orfodi eu dioddefwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol, gan gynnwys recriwtio plant eraill er mwyn camfanteisio arnynt (Casey, 2025). O fewn rhwydweithiau, gellir recriwtio neu orfodi plant i baratoi, dal neu werthu cyffuriau (Dixon, 2024). Gall ofni ôl-effeithiau atal plant rhag rhoi gwybod i'r heddlu a gweithwyr proffesiynol eraill fod rhywun yn camfanteisio arnynt yn rhywiol (Arthur a Down, 2019; Casey, 2025).

Mae camfanteisio'n droseddol ar blant yn digwydd pan fydd grŵp neu unigolyn yn gorfodi, yn rheoli, yn twyllo neu'n dylanwadu ar blentyn i gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol yn gyfnewid am rywbeth y mae'r plentyn ei angen neu ei eisiau, er budd ariannol neu fudd arall y person sy'n hwyluso a/neu drwy drais neu fygythiad o drais (Swyddfa Gartref, 2025). Mae gorgyffwrdd sylweddol â chamfanteisio'n rhywiol ar blant (Jay et al, 2024; Manister et al, 2023; Roberts, 2024): gall plant wynebu camfanteisio rhywiol cyn dechrau gweithgareddau troseddol ac i'w gorfodi neu eu rheoli (Casey, 2025), ac mae llawer o blant mewn rhwydweithiau camfanteisio'n rhywiol ar blant hefyd yn profi camfanteisio troseddol (Dixon, 2024).

Mae mwy o ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n droseddol ar blant wedi effeithio ar y broses o ganfod camfanteisio'n rhywiol ar blant, gan symud oddi wrth drafod camfanteisio'n rhywiol ar blant i drafod 'camfanteisio ar blant' (Casey, 2025). Mae Ian Critchley, arweinydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar gyfer amddiffyn plant, wedi nodi newidiadau parhaus mewn ffocws ac adnoddau rhwng camfanteisio'n rhywiol ar blant a chamfanteisio'n droseddol ar blant, pan fo angen ymateb sensitif i'r ddau (Jay et al, 2024).

## Ymatebion sy'n diwallu anghenion plant a theuluoedd

Mae pwysigrwydd dulliau **amlasiantaethol** integredig – gan gynnwys sefydliadau yn y sector statudol a'r sector gwirfoddol – o atal, tarfu ac ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei gydnabod yn eang (Berelowitz et al, 2013; Cockbain et al, 2014; Pearce, 2014). Canfuwyd bod cynllunio strategol mewn partneriaeth a gweithio cydgysylltiedig yn hanfodol i ymateb effeithiol (Berelowitz et al, 2013).

Mae **diogelu cyd-destunol** yn cynnig gweledigaeth, dulliau gweithredu a fframwaith ar gyfer sut gall partneriaethau diogelu a gofal cymdeithasol plant ymateb i niwed, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant, a wynebir gan bobl ifanc y tu allan i'r cartref (Firmin a Lloyd, 2023), mewn lleoliadau gan gynnwys yn y gymdogaeth, mewn ysgolion, ymysg grwpiau cyfoedion ac ar-lein. Mae diogelu cyd-destunol yn cefnogi gweithwyr proffesiynol i ddeall anghydraddoldebau strwythurol a niwed systemig (Wroe et al, 2023), ochr yn ochr â hyrwyddo rhannu cyfrifoldeb ar draws lleoliadau ac asiantaethau i gefnogi ymatebion i blant a'u teuluoedd.

O fewn y maes **plismona**, fe wnaeth rhaglen i wella'r modd yr ymchwilir i drais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol nodi "newidiadau gweladwy a fyddai'n cynhyrchu canlyniad gweithdrefnol gyfiawn i ddioddefwyr" (Stanko, 2022:17). Mae'r **Model gweithredu cenedlaethol** canlyniadol yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod cyd-destun llawn y troseddau hyn yn cael ei ystyried, gan gynnwys canolbwyntio ar hawliau ac anghenion dioddefwyr drwy gydol y broses ymchwilio.

Gan fod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn gallu bod yn fath o gaethwasiaeth, gellir defnyddio **Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015** i amddiffyn plant sy'n dioddef camfanteisio rhywiol ar sail rhwydweithiau a grwpiau (Arthur a Down, 2019). Dylid hefyd ystyried atgyfeiriad at y **Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol** (Wager et al, 2021).

Wrth weithio gyda phlant sydd wedi profi camfanteisio rhywiol, mae defnyddio **theori trawma** ac **egwyddorion sy'n ystyriol o drawma** yn helpu i ddiwallu eu hanghenion (Yeo et al, 2023), ac yn osgoi beio dioddefwyr ac ymatebion sy'n cosbi'r plentyn (Christie, 2018). Mae hyn yn cynnwys deall sut mae trawma'n dylanwadu ar farn, dewisiadau a gweithredoedd plentyn; dangos dealltwriaeth ddiwylliannol gymwys o'r cyd-destunau lle mae plant yn profi camfanteisio rhywiol; sicrhau nad yw plant sydd wedi profi camfanteisio ac wedi cael eu rheoli yn cael eu trawmateiddio am yr eildro drwy ddulliau cyfyngol o'u cadw'n ddiogel; cydnabod y gall gymryd amser hir i blant deimlo'n ddiogel; a rhoi'r amser a'r hyblygrwydd i weithwyr proffesiynol feithrin perthnasoedd sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth (Hickle, 2019). Mae gweithwyr proffesiynol yn elwa o drefniadau goruchwylio sy'n gallu mynd i'r afael â gweithio gyda thrawma drwy gymorth myfyriol ffurfiol ac anffurfiol (Lefevre et al, 2019).

